**Shan Morgan**
Ysgrifennydd Parhaol
Permanent Secretary

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mr N Ramsay AS, Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

6 Tachwedd 2020

Annwyl Mr Ramsay,

Mae Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2019-20 wedi cael barn amodol ar sail gwahaniaeth barn rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol ar ddehongli safon gyfrifyddu IAS37 – darpariaethau, rhwymedigaethau digwyddiadol ac asedau digwyddiadol; a'r modd y cafodd ei chymhwyso mewn perthynas â chymorth grantiau i fusnesau bach a'r sectorau hamdden, lletygarwch a manwerthu.

Y mater allweddol o ran Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019-20 yw a ddylid cydnabod rhwymedigaeth ar gyfer y cynlluniau grant hyn ar 31 Mawrth 2020. Mae gwahaniaeth barn ar hyn. Mae Llywodraeth Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol wedi asesu'r cynlluniau grant yn erbyn IAS37. Daeth Llywodraeth Cymru i'r casgliad nad oedd angen darparu ar gyfer rhwymedigaeth yng nghyfrifon 2019-20. Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol yn cytuno ac mae wedi rhoi barn wir a theg amodol ar y cyfrifon ar sail hepgoriad sylweddol o wariant yng nghyfrifon 2019-20. At hynny, pe bai Llywodraeth Cymru wedi darparu ar gyfer y rhwymedigaeth, byddai wedi mynd uwchlaw ei therfyn gwariant net awdurdodedig a gymeradwywyd gan y Senedd ar gyfer 2019-20. O ganlyniad, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi rhoi barn reoleidddra amodol hefyd.

Mae ein timau wedi cyfarfod droeon i geisio datrys ein gwahaniaeth barn, ond yn anffodus mae hwn yn un o'r achlysuron prin hynny lle mae Llywodraeth Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol yn anghytuno'n sylfaenol ar fater cyfrifyddu technegol cymhleth. Mewn sawl ffordd mae'n anffodus nad ydym wedi gallu cytuno ar ganlyniad oherwydd,



Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

er gwaethaf yr argyfwng Covid, rydym wedi gweld gwelliannau pellach yn y gwaith o baratoi ac archwilio cyfrifon 2019-20, a’r ddau dîm yn bodloni’r terfynau amser yn llawn. Serch hynny, mae'r ddwy ochr yn cydnabod bod barn amodol ar y cyfrifon yn fater difrifol a byddwn yn sicrhau bod ein timau'n cydweithio'n agos i ystyried unrhyw oblygiadau posibl ehangach, ac yn gweithio drwy'r hyn y mae angen ei wneud yn awr o ran y farn amodol ar y Cyfrifon. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi ar wahân i nodi'r gofynion o ran y farn amodol ar y Cyfrifon.






**Shan Morgan**
Ysgrifennydd Parhaol/ Permanent Secretary
Llywodraeth Cymru / Welsh Government

**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol Cymru/
Auditor General Wales
Archwilio Cymru/Audit Wales

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en